# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 24 Medi 2013**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 2 Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt' (09:05 - 10:00)

Dogfennau ategol:

Linc i 'Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt'

### 3 Papurau i'w nodi (10:00) (Tudalennau 1 - 3)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2013

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10:00 - 10:05)

Eitemau 5, 6 a 7

### 5 Trafod y dull o ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cyllid Iechyd 2013-14 a Thu Hwnt' (10:05 - 10:35)

### 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015: Trafod y materion a godwyd (10:35 - 11:00)) (Tudalennau 4 - 13)

Eitem 3

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 18 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:00 – 16:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_18_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Darren Millar (Cadeirydd)
Mohammad Asghar (Oscar) AC
Mike Hedges
Julie Morgan
Jenny Rathbone
Aled Roberts
Jocelyn Davies
Sandy Mewies
Christine Chapman

Tystion:

Merfyn Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dr Lyndon Miles, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Keith McDonogh, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Grace Lewis-Parry, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

David Sissling, Director General for Health and Social Services, Llywodraeth Cymru
Dr Ruth Hussey, Chief Medical Officer
Martin Sollis, Deputy Director of Finance

Staff y Pwyllgor:

Gareth Price (Clerc)
Daniel Collier (Dirprwy Glerc)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies ar gyfer eitemau 2 i 4. Dirprwyodd Christine Chapman ar ei rhan nes iddi gyrraedd.

## 2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Tystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Merfyn Jones, Cadeirydd sy'n Ymadael Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Dr Lyndon Miles, Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Grace Lewis-Parry, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu ac Ysgrifennydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a Keith McDonogh, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth am y categoriau a swm yr ad-daliadau a wnaed i Awdurdodau Iechyd ar draws y ffin.
- Rhagor o wybodaeth am nifer y cleifion yr effeithiwyd arnynt gan yr oedi o ran y trinidiaethau etholedig a berwyd gan y rheolaethau gwariant argyfwng yn ystod wythnosau diwethaf blwyddyn ariannol 2012-13.
- Nodyn ynghylch pryd y daeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r pryderon ynghylch yr achosion o *C Difficile*.
- Copi o gofrestr risg y Bwrdd Iechyd.
- Rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael a ffigurau'r Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 4 Trafod y dystiolaeth ar Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ar Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 5 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

5.1 Croesawodd y Cadeirydd David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru; Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru; a Martin Sollis, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru.

5.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Manylion cost adroddiad Chris Hurst.
- Y dyddiad pan adawodd Chris Hurst Lywodraeth Cymru.
- Nodyn ar y broses ar gyfer cynnydd yn y pryderon ynghylch Byrddau Iechyd.
- Y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adroddiad a luniwyd gan Allegra.
- Nodyn ar wariant gwarchod cyflogau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Eglurder ynghylch capasiti craidd a'r effaith a gafodd hyn ar ofal wedi'i drefnu.

## 6 Trafod y dystiolaeth ar Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd fel rhan o'i ymchwiliad i Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## 7 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Tystiolaeth gan Brif Weithredwr sy'n Ymadael Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

7.1 Yn fuan cyn i'r cyfarfod ddechrau, hysbysodd Mary Burrows, Prif Weithredwr sy'n Ymadael Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Pwyllgor na fyddai'n gallu dod i'r cyfarfod.

7.2 Rhoddodd Mary Burrows dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor a chynigiodd i ateb unrhyw gwestiynau pellach yn ysgrifenedig.

## 8 Papurau i'w nodi

8.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

8.2 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 9 Trafod y dystiolaeth ar Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd fel rhan o'i ymchwiliad i Drefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon